# GEM UK: Adroddiad Cymru 2012

Jonathan Levie a Mark Hart

Prosiect rhyngwladol yw'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) a oedd yn cynnwys 69 economi ym 2012. Ei nod yw darparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd y gwledydd. Mae llawer o astudiaethau wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd, cystadleurwydd a chreu swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddi data GEM yn ddangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol drwy'r byd. Maint y sampl yng Nghymru oedd 3,008 o oedolion dros 16 oed yn 2012 yn sgîl hybu'r sampl cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

## Prif Ganfyddiadau

- **Y gyfradd entrepreneuriaeth cyfnod cynnar (TEA) yng Nghymru ar gyfer 2012 oedd 7.0 y cant. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol i'r amcangyfrif o 8.1 y cant yn 2011 ond roedd yn sylweddol is na'r amcangyfrifon, sef 10.3 y cant ar gyfer Lloegr a 9.8 y cant ar gyfer y Deyrnas Unedig drwyddi draw.**

- **Y gyfradd TEA oherwydd angen yng Nghymru oedd 1.3 y cant, sy'n debyg i'r gyfradd yn 2011, sef 1.6 y cant a'r gyfradd TEA oherwydd cyfle oedd 5.3 y cant, nad yw'n sylweddol wahanol i'r amcangyfrif yn 2011, sef 6.4 y cant.**

- **Llithrodd cyfradd TEA menywod yn ôl i 4.0 y cant o'r lefel uchaf a gofnodwyd, sef 6.1 y cant yn 2011. Roedd hyn yn sylweddol is nag amcangyfrif y Deyrnas Unedig, sef 7.1 y cant. Gwelwyd gostyngiad yn y gymhareb rhwng dynion a menywod o ran TEA i 39 y cant, a hynny o 60 y cant yn 2011 (57% yn y Deyrnas Unedig, a oedd wedi codi o 49%).**

- **Arhosodd cyfradd TEA oedolion ifanc 18-29 oed yn uchel yn 2012, sef 8.6 y cant, o'i chymharu â 9.7 y cant yn 2011 (y Deyrnas Unedig: 9.4%, wedi codi o 7.4% yn 2011), a'r gyfradd TEA ymhlith rhai 30 - 64 oed oedd 6.5 y cant (7.7% yn 2011), sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig, sef 9.9 y cant (7.7% yn 2011) a'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr (10.5%).**

- **Gwelwyd mymryn o welliant o ran agweddau entrepreneuraidd yng Nghymru yn 2012. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y canfyddiad ynghylch cyfle, gan godi o 17.7 y cant o'r boblogaeth an-entrepreneuraidd o oedran gweithio i 22.6 y cant. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn y canfyddiad ynghylch cyfle ledled y Deyrnas Unedig o 27.9 y cant i 30.5 y cant.**

- **Am y tro cyntaf er 2008, bu gostyngiad yng nghanran yr unigolion an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru a oedd yn gweld cyfleoedd ond bod ofn dechrau busnes arnynt, rhag ofn iddo fethu, o**

**48.9 y cant i 43.8 y cant (y Deyrnas Unedig: 41.4% i 43.3%) ond nid oedd y newidiadau hyn yn ystadegol arwyddocaol.**

- **Gwelwyd mymryn o ostyngiad yng nghyfran yr oedolion an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru sy'n disgwyl dechrau busnes yn ystod y tair blynedd nesaf . Y ganran oedd 8.8% (9.4% yn 2011). Gwelwyd cynnydd yn y nifer a oedd yn bwriadu cychwyn busnes ledled y Deyrnas Unedig ond nid oedd y cynnydd yn sylweddol (9.8% i 11.3%).**

# Y Cefndir

Seilir y Monitor Enrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) ar y canlynol. Yn gyntaf, mae ffyniant economi'n dibynnu'n fawr ar gael sector entrepreneuriaeth deinamig. Yn ail, mae gallu entrepreneuraidd economi'n cynnwys unigolion o bob grŵp yn y gymdeithas sydd â'r gallu a'r cymhelliant i gychwyn busnes, ac mae gofyn i'r gymdeithas arddel agwedd gadarnhaol at entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth uchel ei thwf yn cyfrannu'n allweddol at greu cyflogaeth newydd mewn economi, ac mae cystadleurwydd cenedlaethol yn dibynnu ar gael mentrau entrepreneuraidd arloesol a thrawsffiniol.

Noddodd Llywodraeth Cymru elfen Cymru prosiect ymchwil GEM UK yng Nghymru. Mae ysgogi entrepreneuriaeth yn dal yn her bwysig i Gymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi gafael yn yr awenau i sicrhau bod hyn yn bwrw gwreiddiau yn ei gweithgareddau craidd. Dyma'r ddegfed flwyddyn i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn GEM. O blith y 272,000 a atebodd arolygon GEM UK yn y cyfnod 2002-2012, roedd 44,000 o'r ymatebwyr o Gymru. Yng Nghymru erbyn hyn y mae'r gronfa ddata fwyaf am agweddau, gweithgarwch a dyheadau entrepreneuraidd o blith unrhyw un o ranbarthau'r Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddadansoddi'r tueddiadau ar gyfer is-boblogaethau pwysig yng Nghymru, megis menywod, pobl ifanc neu bobl hŷn, o'u cymharu â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

Defnyddir canlyniadau dadansoddi data GEM yn ddangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol drwy'r byd. Maent hefyd yn golygu bod modd cymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig ac â gwledydd

eraill sy'n cymryd rhan yn GEM. Drwyddi draw, mae gallu unigryw GEM i ddarparu gwybodaeth am dirwedd entrepreneuraidd gwledydd mewn cyd-destun byd-eang yn golygu bod ei ddata'n adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymdrech ddifrifol i astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig ein bod ni'n deall yn well y pethau hynny sy'n dylanwadu ar entrepreneuriaeth cyfnod cynnar, oherwydd, mae tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu bod cysylltiad rhwng cyfraddau uwch o entrepreneuriaeth a ffyniant economaidd cyffredinol, yn enwedig mewn economïau sy'n cael eu sbarduno gan arloesi, megis Cymru.

## Sut y bydd GEM yn mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Bydd GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (a elwir yn TEA) drwy ddefnyddio'r dull a ganlyn:

- Cynhelir arolwg dros y ffôn o hap sampl o'r boblogaeth sy'n oedolion rhwng mis Mai a mis Medi. Yn 2012, estynnwyd y samplo yng Nghymru tan fis Rhagfyr.
- Mynegai'r TEA yw swm yr ymatebwyr hynny sy'n cael eu dosbarthu'n gyw[1] entrepreneuriaid ac yn entrepreneuriaid cwmnïau newydd[2].

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur yr holl weithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw wedi'i seilio ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion yr unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau a sefydlir ganddynt. Yn yr ystyr hwnnw,

---

[1] Y cyfnod cynllunio gweithredol pan fydd yr entrepreneur wedi gwneud rhywbeth yn ystod y 12 mis blaenorol i helpu i gychwyn busnes newydd, busnes newydd y bydd ef/hi yn rhannol berchen arno o leiaf, ac nad yw wedi talu cyflog nac incwm arall i'r perchnogion yn y 3 mis diwethaf.

[2] Diffinnir yr ail gyfnod fel hyn: rhwng 4 a 42 mis ar ôl i'r fenter newydd ddechrau talu incwm i'r perchnogion. Gelwir entrepreneuriaid sydd yn rhannol berchen o leiaf ar fusnes newydd ac yn ei reoli ac sydd wedi bod yn talu rhyw ffurf ar incwm i'r perchnogion am 4 mis o leiaf ond am lai na 42 mis yn entrepreneuriaid cwmni newydd.

mae'n ddull unigryw o fesur tuedd ddiwylliannol cenedl neu ranbarth i fod yn entrepreneuraidd ac mae'n ddull y gellir ei ddefnyddio i gymharu gwledydd â'i gilydd.

Un ffordd o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw i ba raddau y mae'r gweithgarwch wedi'i seilio ar angen (h.y. nad oes dewis gwell ar gyfer gwaith ar gael) neu ar gyfle (lle y gall entrepreneuriaid fod yn manteisio ar y potensial i greu marchnad newydd).

Yn 2011 a 2012, mesurwyd y gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith gweithwyr. Gwyddom y gall diwylliant a rheoliadau effeithio ar sut y mae gweithgarwch entrepreneuraidd yn cael ei fynegi o fewn cenhedloedd. Mewn gwledydd lle bydd gan entrepreneuriaid lai o fynediad o lawer at nawdd cymdeithasol na gweithwyr cyflog, er enghraifft, bydd gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith gweithwyr yn tueddu i ffurfio cyfran uwch o'r gweithgarwch entrepreneuraidd yn gyffredinol[3].

Yn ogystal â holi am weithgarwch, bydd arolwg GEM hefyd yn gofyn i bob ymatebydd am ei agweddau at weithgarwch entrepreneuraidd , a bydd yn gofyn i entrepreneuriaid am eu dyheadau.

Esbonnir y fethodoleg, meintiau'r sampl a'r systemau pwysoli a ddefnyddiwyd yn arolwg poblogaeth oedolion GEM UK 2012 yn fwy manwl yn adroddiad GEM UK 2012 (www.gemconsortium.org <http://www.gemconsortium.org>). Cyflwynwyd newid pwysig i ddyluniad y sampl yn 2010 pan ddetholwyd 10 y cant o'r ymatebwyr ym mhob un o'r Rhanbarthau Swyddfeydd Llywodraethol (GOR) ar hap o blith aelwydydd yr oedd ganddynt ffonau symudol ond nad oedd ganddynt ffonau daearol sefydlog. Yn 2012, cynyddodd hyn o 13 y cant i 16 y cant, yn unol â'r amcangyfrifon diweddar yng nghyfran yr aelwydydd hynny yn y Deyrnas nad oes ond ganddynt ffôn symudol.


Mae'r adroddiad isod yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganlyniadau, a'r prif themâu sy'n codi o arolwg GEM yn 2012 ac o ddadansoddi data 11 mlynedd GEM (2002-12).

[3] Bosma, N. et al. (2013) Global Entrepreneurship Monitor special report on employee entrepreneurial activity. Llundain: Cymdeithas Ymchwil Entrepreneuriaeth Fyd-eang.

# Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar (Mynegai TEA)


Y gyfradd entrepreneuriaeth cyfnod cynnar yng Nghymru ar gyfer 2012 oedd 7.0 y cant. Nid oedd hyn yn sylweddol wahanol na'r amcangyfrif o 8.1 y cant yn 2011 ond roedd yn sylweddol is na'r amcangyfrifon ar gyfer Lloegr, sef 10.3 y cant a'r Deyrnas Unedig drwyddi draw, sef 9.8 y cant. Roedd y gyfradd TEA yn Lloegr yn sylweddol uwch na'r cyfraddau ar gyfer yr holl wledydd eraill yn y Deyrnas Unedig yn 2012 (Ffigur 1).

Drwyddi draw, mae'r gyfradd TEA yng Nghymru, sef 7.0 y cant yn cyfateb i oddeutu un ym mhob pedwar ar ddeg o oedolion 18-64 oed neu oddeutu 131,000 o unigolion. Roedd 55 y cant o'r rhain yng nghyfnod cynnar iawn cychwyn busnes (cyw entrepreneuriaid 3.9%) a'r gweddill â busnes newydd a oedd rhwng 3 a 42 mis oed (3.2%).





**Ffigur 1: Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Nghenhedloedd y Deyrnas Unedig 2012**(Ffynhonnell: GEM APS)

Gwelwyd cynnydd yng nghyfradd y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru, ac yn y Deyrnas Unedig, ar ôl y dirwasgiad (Ffigur 2a). Serch hynny, yn 2012, gostyngodd cyfradd gweithgarwch cyw entrepreneuriaid o 4.9 y cant i 3.9 y cant yng Nghymru ond gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyfraddau'r cyw entrepreneuriaid a'r entrepreneuriaid newydd yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw.





**Ffigur 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig (2002-12)** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae Ffigur 2b yn awgrymu bod y gostyngiad yn 2012 yn lefel y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru o bosibl wedi'i grynhoi yn y gorllewin a'r cymoedd yn hytrach nag yn y dwyrain, er nad oes dim o'r gwahaniaethau hyn sy'n ystadegol arwyddocaol. Anomali o bosibl yw'r brigo ymddangosiadol yn y gweithgarwch entrepreneuraidd yn nwyrain Cymru yn 2009 oherwydd bod maint y sampl yn fach.



**Ffigur 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yn nwyrain Cymru, yn y gorllewin a'r cymoedd yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig (2002-12)** (Ffynhonnell: GEM APS)

Y gyfradd TEA oherwydd angen yng Nghymru oedd 1.3 y cant, sy'n debyg i'r gyfradd yn 2011, sef 1.6 y cant a'r gyfradd TEA oherwydd cyfle oedd 5.3 y cant, nad yw'n sylweddol wahanol i'r amcangyfrif yn 2011, sef 6.4 y cant. Y gyfradd TEA oherwydd angen fel cyfran o'r holl TEA oedd 18 y cant, sy'n debyg i'r gyfradd mewn blynyddoedd blaenorol (Ffigur 3) ac roedd hyn tua'r un fath ag yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig.




**Ffigur 3: Entrepreneuriaeth oherwydd Cyfle ac Angen yng ngwledydd y Deyrnas Unedig yn 2011.** (Ffynhonnell: GEM APS 2012)

## Pwy yw'r Entrepreneuriaid yng Nghymru?


**Rhyw:** Ym mhob un o wledydd unigol y Deyrnas Unedig ac yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw, mae cyfraddau TEA dynion yn sylweddol uwch na chyfraddau menywod. Hefyd, roedd cyfradd TEA dynion yn Lloegr yn sylweddol uwch na chyfradd TEA dynion yn yr Alban yn 2012, ac roedd cyfradd TEA menywod yn Lloegr yn sylweddol uwch na chyfradd TEA menywod yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Mae gwahaniaethau amlwg rhwng y gymhareb gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar dynion i fenywod yn y pedair gwlad. Gostyngodd y gymhareb yng Nghymru o 60 y cant i 39 y cant yn 2012. Er bod y cymarebau blynyddol yn debygol o amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, mae'r cymarebau cyfartalog tymor hir dros y cyfnod 2002 i 2012 yn awgrymu bod cymhareb Cymru sef 53 y cant, yn debyg i'r hyn a welir yn Lloegr (47%) a'r Alban (50%) ond ei bod yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon (35%).




**Ffigur 4: Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Nghenhedloedd y Deyrnas Unedig 2012.** (Ffynhonnell: GEM APS 2012)


Llithrodd cymhareb TEA menywod yng Nghymru o 6.1 y cant yn 2011, sef y ganran uchaf erioed i'w chyfartaledd tymor hir, sef 4.0 y cant yn 2012, er nad oedd y gostyngiad hwn yn ystadegol arwyddocaol. Ni welwyd dim newid yng nghyfradd TEA dynion yng Nghymru, sef 10.1 y cant. Gallwn weld o Ffigur 5, fod cyfraddau TEA menywod yng Nghymru ar y cyfan yn cyfateb i'r duedd drwy'r Deyrnas Unedig. O'r naill flwyddyn i'r llall, maent yn fwy cyfnewidiol oherwydd maint cymharol fach y sampl. Y duedd tymor canol yw bod y gyfradd yn cynyddu.





**Ffigur 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, 2002-12.** (Ffynhonnell: GEM APS)

**Oedran:** Fel y dengys Ffigur 6, ymhlith unigolion rhwng 25 a 34 oed y gwelir y gyfradd uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yn y Deyrnas Unedig. Ers sawl blwyddyn, mae dosbarthiad y gyfradd TEA yn ôl oedran wedi bod yn symud tuag at genhedlaeth iau yng Nghymru, ac mae hyn yn arbennig o amlwg yn 2012. O'r pedair gwlad, yng Nghymru y gwelir yr amcangyfrif uchaf ar gyfer cyfradd TEA y grŵp oedran 18-24. Nid yw'n ystadegol wahanol o'r gyfradd yn y gwledydd eraill er hynny, oherwydd mai cymharol fach yw nifer yr unigolion yn y grŵp oedran hwn.


Dadansoddiad a allai fod yn fwy buddiol fyddai asesu sut mae cyfraddau TEA wedi newid ymhlith y grŵp oedran 18 i 29 (lle mae toriad naturiol i bob golwg yn nata gweithgarwch UK GEM) a chymharu'r rhain â'r grŵp oedran 30 i 64. Mae Ffigurau 7 ac 8 yn dangos bod y gyfradd TEA i oedolion ifanc yng Nghymru wedi bod yn gymharol uchel yn y blynyddoedd diwethaf a bod y gyfradd yn Lloegr o'r diwedd wedi cyrraedd yr un gyfradd yn 2012. Yn groes i hynny, mae cyfraddau TEA ymhlith pobl 30 i 64 oed yng Nghymru yn debyg iawn i'r cyfraddau yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, ac yn 2012, roeddent yn sylweddol is na'r cyfraddau TEA yn Lloegr ar gyfer y grŵp oedran hwn.




**Ffigur 6: Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar (TEA) yng Nghenhedloedd y Deyrnas Unedig 2012** (Ffynhonnell: GEM APS 2012)





**Ffigur 7: Tuedd o ran Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Nghenhedloedd y Deyrnas Unedig ymhlith pobl 18 i 29 oed, 2002 i 2012.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 i 2012)




**Ffigur 8: Tuedd o ran Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar (TEA) yng Nghenhedloedd y Deyrnas Unedig ymhlith pobl 30 i 64 oed, 2002 i 2012.** (Ffynhonnell: GEM APS, 2002 i 2012)

**Addysg:** Lefel gyfartalog cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar i raddedigion yn y Deyrnas Unedig oedd 12.6 y cant sy'n gynnydd sylweddol ar 9.4 y cant yn 2011 (Ffigur 9), ac mae'n sylweddol uwch nag ar gyfer pobl heb radd (8.0%, nad yw'n sylweddol wahanol i'r amcangyfrif 6.5 y cant yn 2011). Roedd hefyd yn sylweddol uwch na'r gyfradd TEA ar gyfer graddedigion sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd (8.9%). Roedd cyfradd TEA graddedigion Cymru yn debyg i'r gyfradd yn y flwyddyn flaenorol (8.5%) ac nid oedd yn sylweddol wahanol i'r gyfradd TEA ar gyfer pobl heb radd yng Nghymru (5,9%, sy'n is, nod nid yn arwyddocaol felly o'i chymharu â'r 7.9% yn 2011). Ar y llaw arall, roedd cyfraddau TEA graddedigion yn sylweddol uwch na chyfraddau TEA pobl heb radd yn Lloegr ac yn yr Alban.



**Ffigur 9: Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar yng Nghenhedloedd y Deyrnas Unedig yn ôl Statws Graddedig, 2012.** (Ffynhonnell: GEM APS 2012)


## Agweddau a Bwriadau Entrepreneuraidd

Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agwedd sy'n datgelu'r potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys adnabod rhywun sydd wedi cychwyn busnes yn y 2 flynedd flaenorol, gweld cyfleoedd da i gychwyn busnes, hunangred bod gan rywun y sgiliau perthnasol i gychwyn busnes ac ofn methu'n atal pobl rhag cychwyn busnes.

Mae'n well trin data agweddol GEM ar lefel grŵp yn hytrach nag ar lefel unigolion, oherwydd bydd unigolion sydd eisoes yn entrepreneuriaid o bosibl yn teimlo rheidrwydd i roi atebion cadarnhaol yn yr Arolwg o'r Boblogaeth sy'n Oedolion(APS). Felly, fel yn y tair blynedd diwethaf, dim ond ar gyfer y gyfran honno o'r boblogaeth nad ydynt eisoes yn entrepreneuriaid y byddwn ni'n adrodd am y data agweddol.


Yng Nghymru, mae un o bob pedwar (27.0%) yn dweud ei fod yn adnabod entrepreneur. Mae hynny yr un fath ag yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw (Ffigur

10), a'r un fath fwy neu lai ag mewn blynyddoedd blaenorol. Yng Nghymru mae dwy ran o dair (41.0%) o'r rheini nad ydynt yn entrepreneuriaid yn credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu busnes - unwaith eto, mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd drwy'r Deyrnas Unedig, sef 38.7 y cant.




**Ffigur 10: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig (2012).** (Ffynhonnell: GEM APS 2012)


Gostyngodd cyfran y boblogaeth a oedd yn gweld cyfleoedd da i gychwyn busnes ond yn dweud y byddai ofn methu'n eu hatal rhag gwneud hynny yn 2012 o 48.9 y cant i 43.8 y cant, sy'n debyg i'r hyn a welwyd yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw, lle y gostyngodd y gyfran o 41.4 y cant i 43.3 y cant, er nad yw'r un o'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol. Mae Ffigur 11 yn dangos i ofn methu yng Nghymru gynyddu fwy nag yn y gwledydd eraill ers dechrau'r dirwasgiad yn 2007, ond mae'r gyfradd erbyn hyn wedi gostwng i gyfradd sy'n debyg i'r hyn a welir yn Lloegr ac yn yr Alban.




**Ffigur 11: Ofn Methu ymhlith y rheini sy'n gweld Cyfleoedd yng Ngwledydd y Deyrnas Unedig, 2002-12.** (Ffynhonnell: GEM APS)

Oherwydd y gyfradd uchel bresennol ar gyfer ofn methu, cynigiwyd i'r rheini a oedd yn gweld cyfleoedd ond a oedd yn ofni methu restr o resymau posibl a gofyn a oedd y rhain yn berthnasol iddynt hwy. Y rheswm a grybwyllwyd amlaf yng Nghymru oedd ofn colli eiddo (83.2%; y Deyrnas Unedig; 67.1%) a'r ail reswm amlaf a roddwyd oedd ofn methdaliad personol (74.5 y cant; y Deyrnas Unedig: 77.3 y cant). Y trydydd rheswm oedd "byddech chi'n teimlo cywilydd petai eich busnes yn methu" ac fe ddewisodd 63.6 y cant o'r ymatebwyr o Gymru'r rheswm hwn, o'u cymharu â dim ond 39.8 y cant drwy'r Deyrnas Unedig.


Yn arolwg 2012, dim ond 22.6 y cant o'r boblogaeth an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru a oedd yn cytuno bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis dilynol, o'i chymharu â 30.5 y cant o boblogaeth an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn sylweddol uwch nag amcangyfrif 2011. Serch hynny, mae bwlch sylweddol o hyd o ran canfyddiad o'r cyfleoedd sydd ar gael o'i gymharu â'r hyn a welir drwy'r Deyrnas Unedig ac yn benodol o'i gymharu â Lloegr.




**Ffigur 12: Canfyddiadau o Gyfleoedd i Gychwyn Busnes yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, 2002-12.** (Ffynhonnell: GEM APS)


Yn 2012, gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd nad oedd digon o gyfleoedd i gychwyn busnes yn eu hardal leol pam yr oedden nhw'n meddwl hyn. Y rheswm a roddwyd amlaf yng Nghymru (44.1% o'r ymatebwyr nad oeddent yn entrepreneuriaid nad oeddent yn gweld cyfleoedd) oedd yr hinsawdd economaidd ehangach (y Deyrnas Unedig: 36.2%). Yr ymateb a gafwyd amlaf wedyn oedd "dim syniad busnes (11.2%; y Deyrnas Unedig: 7.4%) ac wedyn “ardal anaddas” (10.9%; y Deyrnas Unedig: 7.9%).

Ac edrych tua'r dyfodol, gwelwyd mymryn o ostyngiad yng nghyfran yr oedolion an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru sy'n disgwyl dechrau busnes yn ystod y tair blynedd nesaf . Y ganran oedd 8.8% (9.4% yn 2011) (Ffigur 13). Gwelwyd yr amcangyfrif yn y Deyrnas Unedig yn codi o 9.8 y cant i 11.3 y cant, ond nid oedd y cynnydd hwn yn arwyddocaol.  Mae'r canfyddiad hwn yn cyfateb i'r patrwm cyffredinol eleni, sef nad yw agweddau a gweithgarwch yng Nghymru wedi newid fawr er 2011.



**Ffigur 13: Disgwyl Cychwyn Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, 2002-12** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn 2012, roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfran y dynion a chyfran y menywod an-entrepreneuraidd gweithredol yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn bwriadu cychwyn busnes yn y tair blynedd nesaf (Ffigur 14). Yn 2012, roedd 6.8 y cant o'r menywod hynny'n disgwyl cychwyn busnes yn y 3 blynedd nesaf o'u cymharu â 10.8 y cant o ddynion. Y gymhareb menywod i ddynion o ran bwriadu cychwyn busnes yn y dyfodol yng Nghymru oedd 63 y cant, a oedd wedi codi o 55 y cant yn 2011 ac yn uwch nag yr oedd yn y gwledydd eraill. Yn 2011, yn yr Alban yr oedd y gyfradd uchaf (75%). Ond, mae'r gymhareb yn yr Alban wedi gostwng yn 2012 i 39%, ac felly, ni ddylid darllen gormod i hyn. Drwyddi draw, nid oes newid sylweddol wedi bod o ran bwriadu cychwyn busnes yn y flwyddyn ddiwethaf.




**Ffigur 14: Y cyfraddau sy'n Disgwyl Cychwyn Busnes yn y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng ngwledydd y Deyrnas Unedig, yn ôl Rhyw, 2012.** (Ffynhonnell: GEM APS 2012)

# Medru'r Gymraeg yn rhugl a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn 2012 o ran cyfradd TEA y rheini yng Nghymru a oedd yn siarad ac yn ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl (10.3%), y rheini a allai siarad a deall rhywfaint o Gymraeg (5.9%) a'r rheini nad oedd ganddynt fawr o sgiliau Cymraeg neu ddim o gwbl (6.8%).

# Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Yn 2012, roedd 16.3 y cant o gyw entrepreneuriaid ac entrepreneuriaid newydd rhwng 18 a 12.4 y cant o entrepreneuriaid 25 i 30 oed wedi clywed am Adnoddau Dynamo, o'u cymharu ag 8.3 y cant o bobl eraill 18 i 24 oed ac 8.6 y cant o bobl eraill 25 i 30 oed. Nid oedd y gwahaniaethau hyn yn ystadegol wahanol, ond roedd yr unigolion iau i bob golwg yn fwy tebygol o fod wedi clywed am Adnoddau Dynamo (16.3%) na'r rhai rhwng 25 a 30 oed (8.6%). Drwyddi draw, roedd 13.1 y cant o oedolion ifanc 18 i 30 oed wedi clywed am Adnoddau Dynamo, sy'n debyg i'r amcangyfrif yn 2011, sef 12.8 y cant.

Yn 2010, cynhwyswyd cwestiwn mwy manwl ynglŷn ag a oedd pobl 18-30 wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau yn yr ysgol, yn y coleg neu'r brifysgol a oedd wedi gwneud iddynt ystyried cychwyn busnes neu fod yn fos arnynt eu hunain. Dywedodd hanner y rhain bron (46.7%) eu bod; 39.7 y cant oedd y ffigur hwn yn 2011 ac fe arhosodd yr un fath, sef 41.5 y cant yn 2012. Yr amcangyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon oedd 53.9 y cant (wedi codi o 50.8%), ac roedd hyn yn sylweddol uwch nag ar gyfer Cymru a Lloegr (37.4%) ond yr un fath ag ar gyfer yr Alban (44.6 y cant). Gofynnwyd cwestiwn ychydig yn wahanol hefyd: "O ganlyniad i rywbeth wnaethoch chi yn yr ysgol, yn y coleg neu yn y brifysgol, a fyddech chi'n ystyried cychwyn eich busnes eich hun?" Roedd yr atebion yn debyg iawn, gyda 42.2 y cant yn ateb y byddent yn 2012, o'u cymharu â 42.3 y cant yn dweud y byddent yn 2011. Roedd y gyfran a atebodd y byddent yn debyg yn Lloegr, (3.1%), yn yr Alban (46.6%) ac yng Ngogledd Iwerddon (45.5%).


Yn 2012, roedd cyfrannau tebyg iawn o bobl yn y pedair gwlad wedi clywed am yr Wythnos Fenter neu'r Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang: 24.3 y cant yng Nghymru, 21.0 y cant yn Lloegr a'r Alban a 23.2 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Roedd yr amcangyfrifon hyn i gyd yn debyg i'r amcangyfrifon yn 2011.

# Gweithgarwch Entrepreneuraidd gan Weithwyr

Yn 2011, mesurodd GEM weithgarwch entrepreneuraidd gan weithwyr am y tro cyntaf gan ddiffinio hynny fel cyfran y gweithwyr 18-64 oed sy'n chwarae rhan arweiniol wrth greu a datblygu gweithgareddau busnes newydd i'r sefydliad y maent yn gweithio iddo, yn benodol y rheini sy'n ymwneud â datblygu neu lansio nwyddau neu wasanaethau newydd neu sefydlu uned fusnes newydd, sefydliad newydd neu is-gwmni. Mae GEM wedi datblygu ystod o ddulliau mesur ar gyfer y gweithgarwch hwn. Y prif ddull yw mesur cyfran y gweithwyr ymhlith y boblogaeth oedran gweithio sydd ar hyn o bryd yn arwain gweithgareddau busnes newydd i'w cyflogwr. Gall y gweithgareddau hyn naill ai fod yn ddatblygu syniad ar gyfer gweithgarwch newydd neu'n baratoi a rhoi gweithgarwch newydd ar waith. Gall yr unigolion hyn fod yn weithwyr a gyflogir gan sefydliadau preifat er elw, gan y llywodraeth neu gan sefydliadau heb fryd ar wneud elw. Mae Ffigur 15 yn cymharu TEA, EEA a PEEA, sef y gyfradd ar gyfer gweithwyr entrepreneuraidd mewn sefydliadau preifat er elw,

gan ddefnyddio'r un enwadur (canran o ymatebwyr 18-64 oed) er mwyn gallu eu cymharu.

Y gyfradd EEA oedd 5.1 y cant yn y Deyrnas Unedig, 5.3 y cant yn Lloegr, 3.6 y cant yng Nghymru, 4.0 y cant yn yr Alban a 4.7 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Roedd amcangyfrifon cyfradd PEEA 2012, sy'n is-set o'r EEA, yn debyg â'r rheini ar gyfer 2011: Y Deyrnas Unedig 2.8 y cant (2011 2.3 per cent), Lloegr 2.9 y cant (2011: 2.4%), Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon 1.9 y cant (2011: 1.5%, 1.8% ac 1.7%, yn y drefn honno). Mae Ffigur 15 yn cymharu'r cyfraddau TEA, EEA a PEEA ar gyfer y pedair gwlad a'r Deyrnas Unedig drwyddi draw yn 2011.  Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfraddau gweithgarwch gweithwyr y pedair gwlad, sy'n wahanol i'r gyfradd TEA lle mae'r gweithgarwch yn sylweddol uwch yn Lloegr nag yn y gwledydd eraill.




**Ffigur 15: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd cyfnod cynnar, Gweithgarwch Entrepreneuraidd gan Weithwyr a Gweithgarwch Entrepreneuraidd gan Weithwyr yn y Sector Preifat ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig, 2012.** (Ffynhonnell: GEM APS 2012)

# Sylwadau Cloi

Un o nodweddion nodedig entrepreneuriaeth yn y Gymru gyfoes yw bod y cyfraddau gweithgarwch yn gostwng gydag oed. Mae hyn yn anghyffredin iawn. Drwy'r byd, mae gweithgarwch entrepreneuraidd yn tueddu i gynyddu'n gyflym gydag oed hyd at 35 neu oddeutu hynny, ac wedyn mae'n gostwng yn raddol. Yng Nghymru, fel y dangoswyd yn Ffigur 6, mae'r gostyngiad fwy neu lai'n digwydd mewn llinell syth

gydag oed. Yn wir, roedd cyfradd TEA pobl 35-44 yng Nghymru yn 2012 lai na hanner y gyfradd yn Lloegr. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd pobl yn eu 30au a'u 40au fel rheol yn elwa o gyfuniad o brofiad ac egni. Y duedd yw bod gan oedolion iau yr egni ond nid y brwdfrydedd, a bod lefelau egni'n is ymhlith oedolion hŷn. Mae cyfraddau TEA oedolion iau'n debyg i'r rheini yn Lloegr, ac felly, efallai fod angen rhoi rhagor o sylw i'r grŵp canol, sef y rheini rhwng 35 a 54 oed sy'n tanberfformio o safbwynt cymharol.

Yng Nghymru, mae 56 y cant o'r rheini sy'n 35-44 oed a oedd yn gweld cyfle i gychwyn busnes hefyd yn dweud na fyddent yn gwneud hynny rhag ofn iddo fethu. Dyma'r gyfran uchaf o blith unrhyw grŵp oedran yng Nghymru ac mae hyn tua deg pwynt canran yn uwch na'r gyfradd yn y pedair gwlad arall sydd yn yr un grŵp oedran. Mae ofn colli cartref ac ofn methdaliad personol yn ymddangos yn gymharol uchel yng Nghymru ac efallai fod cysylltiad rhwng hyn a'r gyfradd cychwyn busnes isel ymhlith pobl o'r oedran hwn sydd yn eu hanterth o ran cychwyn busnes. Gallai rhagor o waith ymchwil ymchwilio i'r rhesymau dros hyn.

# Ymwadiad

Seilir yr adroddiad hwn ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm GEM a thîm GEM UK; cyfrifoldeb yr awduron yn llwyr yw'r dadansoddi a'r dehongli ar y data hyn.

**I gael gwybod rhagor am brosiect GEM UK, cysylltwch â**

Yr Athro Mark Hart
Grŵp Economeg a Strategaeth
Ysgol Fusnes Aston, Prifysgol Aston
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
Ebost: mark.hart@aston.ac.uk

Aston Business School

Yr Athro Jonathan Levie
Prifysgol Entrepreneuriaeth Hunter,
Prifysgol Strathclyde,
Livingstone Tower, 26 Richmond Street,
Glasgow, G1 1XH

Ebost: j.levie@strath.ac.uk

University of Strathclyde
Business School

**Atodiad 1**

## Testun Graff

**Fig 1**
[Vertical]
% o'r Boblogaeth sy'n Oedolion (18-64 oed)
Horizontal]
Lloegr GI Yr Alban Cymru y DU

**Fig 2a**
[Top]
Cymru Cyfartaledd y DU
[Vertical]
% o'r Boblogaeth sy'n Oedolion

**Fig 2b**
[Top}
Dwyrain Cymru Gorllewin Cymru a'r cymoedd Cymru y DU
[Vertical]
% o'r Boblogaeth sy'n Oedolion 18-64 oed

**Fig 3**
[Top]
Cyfle Angen Arall
[Vertical]
% o Gyw Berchnogion a Pherchnogion Busnesau Newydd
[Horizontal
Yr Alban GI Lloegr Cymru y DU

**Fig 4**
[top]
gwryw benyw
[Vertical]

% o Gyw Berchnogion a Pherchnogion Busnesau Newydd
[Horizontal]
Yr Alban GI Lloegr Cymru y DU

**Fig 5**
**[top]**
Cymru Cyfartaledd y DU
[vertical]
% o'r boblogaeth sy'n oedolion 18-64 oed

**Fig 6**
[Vertical]
% o'r Grŵp Oedran
Horizontal
Lloegr Cymru Yr Alban GI Y DU

**Fig 7**
[top]
Lloegr Cymru Yr Alban GI
[Vertical]
Cyfradd TEA (% 18-24 oed)

**Fig 8**
[top]
Lloegr Cymru Yr Alban GI
[Vertical]
Cyfradd TEA (% 30-64 oed)

**Fig 9**
[Top]
Graddedigion Pobl Heb Radd
[Vertical]
% o'r Boblogaeth sy'n Oedolion 18-64 oed
[Horizontal]
Lloegr Cymru Yr Alban GI y DU

**Fig 10**
[Top]
Cymru Y Deyrnas Unedig
[Vertical]
% y Boblogaeth An-Entrepreneuraidd
[Horizontal – left to rights]
Rwy'n nabod rhywun sydd wedi cychwyn busnes yn y 2flynedd diwethaf
Mae cyfleoedd da i gychwyn busnes lle rwy'n byw yn y 6 mis nesaf
Mae gen i'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i gychwyn busnes

Byddai ofn methu'n fy atal rhag cychwyn busnes (i'r rheini sy'n cytuno bod cyfleoedd da i gychwyn busnes

**Fig 11**
**[**Top]
Lloegr Cymru Yr Alban GI
[Vertical]
% y rhai an-entrepreneuraidd 18-64 oed sy'n gweld cyfleoedd ond sydd ag ofn methu

**Fig 12**
[top]
Cymru Cyfartaledd y Deyrnas Unedig
{vertical]
% o'r Boblogaeth Am-Entrepreneuraidd

**Fig 13**
[top]
Cymru Cyfartaledd y DU
[vertical]
% o'r Boblogaeth An-Entrepreneuraidd

**Fig 14**
[top]
Gwryw Benyw
[vertical]
% o'r Boblogaeth An-Entrepreneuraidd 18 – 64 oed
[horizontal]
Lloegr Cymru Yr Alban GI y DU

**Fig 15**
[top]
**TEA EEA PEEA**
[vertical]
% o'r Boblogaeth 18 – 64 oed
horizontal]
Lloegr Cymru Yr Alban GI y DU